



**AMODAU TRWYDDED  
AR GYFER  
LLETYA CŴN YN Y  
CARTREF**

V1.2.20

## Cyflwyniad

Er mwyn perthyn i gwmpas sefydliad lletya cŵn yn y cartref, mae'n rhaid darparu llety yn amgylchedd y cartref. Mae'n rhaid i hynny fod y tu mewn i'r cartref domestig, nad yw'n gartref arferol i'r ci hwnnw, ac nid mewn unrhyw gwb allanol. Ni fyddai busnes sydd yn gofalu am gŵn yn ei drigfan arferol (e.e. Gofalwyr anifeiliaid anwes), nau pan nad y llety a ddarperir yw prif bwrpas y busnes hwnnw (e.e. Practisau milfeddyg), neu fusnesau sydd y darparu gofal dydd i gŵn (mae'r rhain dan gwmpas darparu gofal dydd i gŵn), angen trwydded lletya cŵn yn y cartref.

Oni nodir fel arall bydd yr amodau yma yn gymwys i'r holl adeiladau ac ardaloedd y mae gan gŵn fynediad iddynt a/neu a ddefnyddir mewn cysylltiad â lletya cŵn yn y cartref.

Mae'n rhaid i'r fangre gael ei gweithredu mewn ffordd fydd yn osgoi niwsans (sŵn/croniadau etc.) i feddianwyr tai cyfagos. Bydd yr adran tai a llygredd yn delio ag unrhyw gwynion am niwsans, a gallai unrhyw gwynion y gellir eu cyfiawnhau arwain at ostwng nifer y cŵn neu ddiddymu eich trwydded.

Efallai y byddwch angen caniatâd cynllunio i redeg busnes o'ch cartref, a gellir cyflwyno cais am gyngor gan yr adran gynllunio ar-lein drwy ymholiad cynllunio. Efallai y bydd raid i chi hefyd dalu cyfraddau uwch os byddwch yn defnyddio rhan o'ch eiddo ar gyfer busnes, ac i gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r adran cyfraddau busnes yn: [nndr.enquiries@conwy.gov.uk](mailto:nndr.enquiries@conwy.gov.uk). Os oes gennych forgais ar eich eiddo fe'ch cyngorir i gysylltu â'ch benthycwr a'u hysbysu bod yr eiddo yn cael ei ddefnyddio at ddibenion busnes.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os ydych angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â thrwyddedau anifeiliaid, e-bostiwch [foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk](mailto:foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk), ffonio 01492 575283 neu ymweld â [www.conwy.gov.uk/animal-boarding](http://www.conwy.gov.uk/animal-boarding).

## Cynnwys

Dangos trwydded ac yswiriant.....	Tudalen 3
Amodau cyffredinol.....	Tudalen 3
Adeiladwaith mewnol ac allanol.....	Tudalen 4
Maint trigfeydd.....	Tudalen 5
Gwelyau ac ardaloedd cysgu.....	Tudalen 5
Tymheredd, golau ac awyru.....	Tudalen 5
Glendid.....	Tudalen 6
Rheoli plâu a gwaredu gwastraff.....	Tudalen 6
Diet a maeth.....	Tudalen 6
Cyfleusterau ymarfer corff.....	Tudalen 7
Goruchwyliaeth.....	Tudalen 7
Iechyd a lles.....	Tudalen 8
Rheoli clefydau, brechiadau ac ynysu.....	Tudalen 8
Gofynion amrywiol.....	Tudalen 9
Cludo cŵn.....	Tudalen 9
Dianc rhag tân, trydanol a deiliaid allweddi.....	Tudalen 10
Cadw cofnodion a chofrestr.....	Tudalen 11
Meddyginiaethau arferol, cymdeithasu ac ID cŵn.....	Tudalen 11

## Atodlen A - Amodau Trwydded

AMODAU	CANLLAWIAU
<b>AMOD 1 DANGOS TRWYDDED AC YSWIRIANT</b>	
a) Mae'n rhaid dangos y drwydded neu gopi o'r drwydded yn glir ac amlwg i'r cyhoedd mewn lle amlwg yn y fangre, neu dylai fod ar gael i bob cwsmer.	<i>Gellid dangos y drwydded mewn man cyhoeddus megis ger y fynedfa a ddefnyddir i ddod â chŵn i'r fangre neu dderbynfa, neu gallech ofalu bod y drwydded ar gael i bob cwsmer ar gais.</i>
b) Mae'n rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod y sefydliad wedi ei ddiogelu gan yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ac addas. Mae'n rhaid dangos y dystysgrif yswiriant mewn man amlwg neu ofalu ei fod ar gael.	<i>Dylai gynnwys ystod eang o anffawdau cysylltiedig â chŵn o ofal brys gan filfeddyg, colled, dianc, atebolrwydd trydydd parti ac atebolrwydd cyflogwr (pan yn gymwys).</i>
<b>AMOD 2 AMODAU CYFFREDINOL</b>	
a) Ni fydd unrhyw fangre lletya cŵn yn y cartref yn cael ei drwyddedu ble mae yna blant o dan 5 oed yn yr eiddo/mangre, oni bai bod asesiad risg cydnerth ynghylch sut mae gwahanu cŵn a phlant yn cael ei gynnal.	<i>Mae'n rhaid i'r asesiad risg gael ei roi i'r awdurdod lleol cyn rhoi trwydded. Ni ddylid caniatáu plant mewn ardaloedd a ddefnyddir gan gŵn.</i>
b) Rhaid cael gwahaniad clir rhwng yr ardaloedd a ddefnyddir gan gŵn ac ardaloedd a ddefnyddir gan blant o dan 5 oed.	<i>Dylai hyn gael ei gynnwys yn yr asesiad risg. Gellid cyflawni hynny drwy ddefnyddio giatiau digonol/addas, drysau wedi'u cloi etc.</i>
c) Ni ddylid derbyn cŵn sydd wedi eu cofrestru o dan Ddeddf Cŵn Peryglus (DDA) 1991 yn y sefydliad lletya cŵn yn y cartref, oni bai y'u rhoddyd ar Fynegai Cŵn Eithriedig.	<i>O dan y Ddeddf, mae'r bridiau cŵn gwaharddedig yn cynnwys Pit Bull Terrier, Fila Brasileiro, Dogo Argentino a Japanese Tosa. Mae DDA 1991 yn caniatáu i gŵn y mae'r Llys yn ystyried nad ydynt yn achosi risg i ddiogelwch y cyhoedd ac sydd dan reolaeth person addas a phriodol gael eu rhoi ar y Mynegai Cŵn Eithriedig. Os bodlonir yr holl amodau ac y darperir tystysgrif eithrio gallwch benderfynu caniatáu lletya ci a restrir o dan DDA 1991.</i>
d) Ni ddylid lletya cŵn bach dan 6 mis oed oni bai eu bod wedi cael cwrs llawn o frechiadau ac na nodwyd unrhyw anawsterau yn ystod cyfnod cymdeithasu treial a ddogfennwyd.	<i>Mae'n rhaid i bob ci bach a dderbynnir fod wedi cael yr holl frechiadau cyfredol. Mae hynny fel arfer yn cael ei gwblhau erbyn 12 wythnos/3 mis oed. Mae'n bwysig peidio caniatáu cŵn bach cyn hynny, oherwydd byddant angen eu holl frechiadau ac mae'n rhaid iddynt fod wedi setlo yn eu cartref newydd/gyda'r perchennog newydd.</i>
e) Ni ddylid lletya gwrywod a benywod yn eu tymor, neu fenywod sydd ar fin bod yn eu tymor yn ystod y cyfnod lletya, gyda'i gilydd.	<i>Wrth drefnu bwciad gyda chwsmer ar gyfer gast heb ei ysbaddu, dylech ofyn pryd oedd ei thymor diwethaf a/neu a fydd yn dod i dymor yn ystod y cyfnod lletya.</i>
f) Ni ddylid derbyn cŵn gwyllt ar gyfer lletya yn y cartref.	<i>Gallai derbyn cŵn gwyllt ddod â chlefyd neu barasitau i'r sefydliad, oherwydd diffyg cofnodion brechiadau, cofnodion iechyd neu gofnodion trin parasitau. Hefyd gallai'r ci fod yn beryglus i gŵn eraill.</i>

<p><b>g)</b> Ni ddylai nifer y cŵn a ganiateir eu cadw yn y fangre ar unrhyw adeg fod yn uwch na'r hyn a nodir ar y drwydded.</p>	<p><i>Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y sefydliad yn ei gyfanrwydd; yn cynnwys y llety sydd ar gael, goruchwyliaeth, cyfleusterau ymarfer corff a lefel cydymffurfiaeth barhaus ag amodau'r drwydded wrth benderfynu ar uchafswm y cŵn ellir eu cadw yn y fangre drwyddedig. Ar gyfer unrhyw gynnydd mewn niferoedd cŵn, mae'n rhaid cael caniatâd gan yr Awdurdod Trwyddedu.</i></p> <p><i>Pan nad yw'r awdurdod trwyddedu yn fodlon â gallu'r deiliad trwydded arfaethedig neu ddeiliad trwydded presennol i fodloni'r amodau trwydded, gallent ostwng nifer y cŵn y gall y sefydliad eu lletya.</i></p>
<p><b>h)</b> Gellir lletya cŵn o wahanol aelwydydd gyda'i gilydd ar yr un adeg, cyn belled â bod asesiad ymlaen llaw o'u tymer, natur gymdeithasol a hanes lletya wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn addas a bod caniatáu ysgrifenedig yr amrywiol berchnogion wedi ei dderbyn.</p>	<p><i>Mae'n rhaid gwneud hynny ar gyfer pob ci cyn cael ei letya yn y sefydliad y tro cyntaf. Mae'n rhaid cofnodi'r wybodaeth hon. Mae hynny yn bwysig er mwyn sicrhau bod cŵn yn gydnaws â chŵn eraill gaiff eu lletya a chŵn a chathod eraill sydd yn byw yn y fangre, a bod yr holl berchnogion cŵn yn ymwybodol bod eu cŵn yn cael eu lletya gyda chŵn eraill o wahanol aelwydydd a chŵn/cathod sydd yn anifeiliaid anwes.</i></p>
<p><b>i)</b> Pan fo yna gi neu gath yn byw yn y fangre, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan berchnogion y ci gaiff ei letya yn dilyn sesiwn treialu cyfarwyddo.</p>	
<p><b>AMOD 3</b> <b>ADEILADWAITH MEWNOL AC ALLANOL</b></p>	
<p><b>a)</b> Mae'n rhaid i'r cŵn gael eu lletya yn y cartref fel anifeiliaid anwes y teulu. Ni ddylid defnyddio unrhyw adeiladau allanol, cewyll neu rediadau fel y prif lety.</p>	<p><i>Mae'n rhaid i sefydliadau lletya cŵn yn y cartref gartrefu cŵn yn amgylchedd y cartref. Gellir cael strwythurau allanol (er enghraifft siediau, gasibos, pebyll etc.) y gall cŵn gael mynediad iddynt pan yn ymarfer corff yn yr awyr agored (e.e. Ar gyfer gorffwys, cysgodi rhag yr haul neu wynt etc.) Dylid ond defnyddio'r strwythurau yma at y dibenion yma, ac ni ddylid eu defnyddio fel llety. Ni fyddai unrhyw redfeydd, cewyll neu adeiladau allanol (cyndai) a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer lletya yn perthyn i gwmpas trwydded lletya yn y cartref, ac yn hytrach byddai angen gwneud cais am drwydded cyndai.</i></p>
<p><b>b)</b> Mae'n rhaid i'r fangre gael ei mynediad ei hun ac nu ddylai gael mynedfa a rennir.</p>	<p><i>Ni fydd trwydded yn cael ei roi i fangreoedd sydd â mynedfa a rennir, megis cynteddau neu risiau cymunol. Mae'n rhaid i'r mynedfeydd fod ar gyfer defnydd y fangre honno yn unig.</i></p>
<p><b>c)</b> Mae'n rhaid i'r fangre gael mynediad uniongyrchol i ardaloedd awyr agored addas, at ddefnydd yr eiddo hwnnw yn unig.</p>	<p><i>Mae'n rhaid i hynny fod at ddefnydd y fangre neu'r eiddo hwnnw yn unig (nid yn cael ei rannu â thrigolion eraill) ac ni ddylai fod yn fan cyhoeddus.</i></p>
<p><b>d)</b> Mae'n rhaid cynnal a chadw holl ardaloedd (mewnol ac allanol) y fangre a rhaid iddynt fod mewn cyflwr da.</p>	<p><i>Mae hynny yn cynnwys yr holl wynebau mewnol (lloriau, waliau etc.), llwybrau allanol, gerddi, ardaloedd ymarfer corff, a'r amgylchedd cyffredinol.</i></p>
<p><b>e)</b> Mae'n rhaid cynnal a chadw holl ardaloedd (mewnol ac allanol) y fangre a rhaid iddynt fod mewn cyflwr diogel.</p>	<p><i>Ni ddylai fod yno unrhyw ymylon miniog na garw nac unrhyw beryglon eraill, allai achosi risg o anaf i gi. Os defnyddir tyweirch artiffisial mae'n rhaid ei gadw mewn cyflwr da er mwyn osgoi peryglon amlyncu.</i></p>
<p><b>f)</b> Mae'n rhaid i'r holl wynebau mewnol fod yn esmwyth, anhydraid ac yn hawdd eu glanhau/diheintio.</p>	<p><i>Pan fo'n bosibl, dylai wynebau mewnol fod yn wynebau caled yn hytrach na charpedi. Os oes carpedi yn bresennol, mae'n rhaid eu glanhau yn ddigonol yn rheolaidd.</i></p>

<p><b>g)</b> Mae'n rhaid i'r holl ardaloedd (mewnol ac allanol) fod yn ddiogel er mwyn osgoi'r risg o ddianc neu golli.</p>	<p><i>Mae hynny yn cynnwys ffiniau priodol mewn ardaloedd allanol (e.e. ffensio - uchder priodol yn ddibynol ar y cŵn sydd yn lletya a gosodiad yr ardd, ac o adeiladwaith gadarn). Ffenestri atal dianc (os yn gymwys) a giatau diogel (y gellir eu cloi)/drysau cryf all ymdopi â gwrthdaro, crafu a chnoi. Dylai unrhyw fylchau fod yn ddigon bach i atal ci rhag dianc neu gael ei drapio.</i></p>
<p><b>AMOD 4 MAINT Y TRIGFEYDD</b></p>	
<p><b>a)</b> Mae'n rhaid cael digon o le ar gael er mwyn cadw'r cŵn ar wahân os bydd angen:</p>	<p><i>Dylid cael nifer digonol o ystafelloedd/gofodau ar wahân i'r cŵn er mwyn gallu eu lletya ar wahân os bydd angen. Gallai hynny fod yn fuddiol i rai cŵn y mae'n well ganddynt gael amser ar eu pennau eu hunain.</i></p>
<p><b>b)</b> Mae'n rhaid i'r gosodiad alluogi i bob ci ddewis gweld cŵn eraill neu beidio.</p>	<p><i>Yn y ddwy achos, mae'n rhaid asesu'n briodol beth yw maint y ci a'i anghenion unigol, er mwyn sicrhau y gall y cyfleuster barhau i fodolni ei anghenion.</i></p>
<p><b>AMOD 5 GWELYAU AC ARDALOEDD CYSGU</b></p>	
<p><b>a)</b> Mae'n rhaid i welyau digonol ac addas fod ar gael i bob ci. Mae'n rhaid i gŵn gael mynediad at eu gwelyau eu hunain.</p>	<p><i>Mae'n rhaid annog y perchnogion i ddarparu gwely ei hun i bob ci, a gallai hynny help i'r ci setlo i'r amgylchedd. Dylid darparu gwely i bob ci er mwyn osgoi cystadleuaeth neu fonopoleiddio.</i></p>
<p><b>b)</b> Mae'n rhaid cadw yr holl welyau ac ardaloedd gwelyau yn lân a sych. Mae'n rhaid i'r trwyddedai allu darparu deunyddiau gwely ychwanegol os bydd angen.</p>	<p><i>Mae'n rhaid gwaredu unrhyw wely sydd wedi ei faeddu ar unwaith, a'i storio, ei waredu neu ei olchi yn briodol. Gellir defnyddio gwelyau sbâr a gedwir yn y fangre fel amnewid am unrhyw wely a faeddir neu os na ddarperir gwelyau digonol neu pan na ddarperir gwely gan y perchennog.</i></p>
<p><b>AMOD 6 TYMHEREDD, GOLAU AC AWYRU</b></p>	
<p><b>a)</b> Mae'n rhaid i gyfleusterau gwresogi ac oeri fod ar gael yn yr amgylchedd ddomestig (yn cynnwys cyfleusterau wrth ynysu) a dylid eu defnyddio yn unol â gofynion y cŵn unigol.</p>	<p><i>Er mwyn cynnal tymheredd yn ôl yr angen, efallai y bydd ffynonellau gwres unigol ar gyfer y cŵn yn ddigonol. Mewn rhai amgylchiadau bydd angen gwres cefndirol ychwanegol hefyd (e.e. Gwres canolog).</i></p>
<p><b>b)</b> Mae'n rhaid i ran o'r ardal cysgu fod yn lle ble gall ci fwynhau isafswm tymheredd o 10°C a lleiafswm tymheredd o 26°C a rhwng 13°C a 26°C mewn ardaloedd ynysu (ac yn ddarostyngedig i gyngor milfeddygol).</p>	<p><i>Dylid monitro'r cŵn i wirio a ydynt yn rhyw boeth neu yn rhy oer. Os bydd ci unigol yn dangos arwyddion o fethu goddef gwres neu oerni, mae'n rhaid cymryd camau i sicrhau lles y ci. Mae'n rhaid i'r cŵn allu symud ei hun oddi wrth ffynhonnell gwres uniongyrchol. Ar gyfer cŵn a ynsir, dylid ceisio a dilyn cyngor milfeddygol.</i></p>
<p><b>c)</b> Mae'n rhaid i drwyddedeion sicrhau bod yr holl ffynonellau gwres yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol ar gyfer y cŵn a'r bobl sydd yn gweithio yno.</p>	<p><i>Ni ddylid lleoli gwresogyddion mewn modd neu leoliad ble maent yn achosi risg o losgi neu sioc drydanol i gŵn neu bobl, neu risg o dân. Dylai tannau agored gael eu diogelu yn addas.</i></p>
<p><b>d)</b> Mae'n rhaid darparu golau mewn ardaloedd ymarfer corff a chysgu fel bod pob man yn weladwy.</p>	<p><i>Pan fo'n ymarferol dylai hwn fod yn olau naturiol yn ystod oriau'r dydd. Dylai golau artiffisial fod ar gael yn ystod oriau'r nos. Yn yr amgylchedd domestig dylid ystyried lleoliad unrhyw oleuadau ar eu traed eu hunain allai y cŵn eu taro drosodd.</i></p>
<p><b>e)</b> Mae'n rhaid diffodd y golau yn ystod y nos er mwyn caniatáu patrymau cysgu priodol.</p>	<p><i>Gall fod yna amgylchiadau ble gellid gadael lamp ymlaen er mwyn i'r cŵn allu canfod eu ffordd o gwmpas yn ddiogel yn ystod y nos, ond ni ddylai hynny effeithio ar batrymau cysgu.</i></p>
<p><b>e)</b> Mae'n rhaid darparu awyriad digonol i'r holl ardaloedd mewnol heb greu drafftiau lleol gormodol a dylid osgoi gormod o leithder.</p>	<p><i>Yn yr amgylchedd domestig, gellir darparu awyriad digonol drwy agor ffenestr yn unig, ond dylid rhoi ystyriaeth lawn a dylid cymryd camau er mwyn atal y risg o ddianc neu effaith ar ddiogelwch y cŵn. Gall</i></p>

	<i>awyriad hefyd gynnwys ffaniau dros dro neu ddefnyddio unedau tymheru aer.</i>
<b>AMOD 7 GLENDID</b>	
<b>a)</b> Mae'n rhaid cadw yr holl ardaloedd ble mae gan gŵn fynediad iddynt yn lân a heb grynodiadau o faw a llwch, a dylid eu cadw mewn ffordd sydd yn cynnal rheolaeth ar glefydau ac sydd yn sicrhau bod y cŵn yn gyfforddus.	<i>Mae'n rhaid i'r dewis o gynhyrchion glanhau a diheintwyr fod yn seiliedig ar addasrwydd, cynaliadwyedd, cydnawsedd ac effeithiolrwydd. Mae'n rhaid i gynhyrchion diheintio fod yn firwsleiddiol a bacterleiddiol. Mae'n rhaid defnyddio cynhyrchion glanhau a diheintio yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwr. Mae'n rhaid i'r staff sydd yn defnyddio cynhyrchion glanhau allu defnyddio diheintwyr a hylifau yn ddiogel. Mae'n rhaid cadw cynhyrchion glanhau y tu hwn i gyrraedd anifeiliaid. Mae'n rhaid cadw offer ysgrafellu yn ân ac mewn cyflwr da, ac os y'i darperir gan y perchennog, rhaid ei ddefnyddio yn unig ar y ci hwnnw a rhaid ei anfon yn ôl gyda'r ci. Mae'n rhaid glanhau teganau a'u diheintio rhwng bob defnydd ar gyfer gwahanol gŵn, eu gwaredu neu eu dychwelyd i berchennog y ci (os daethant gyda'r ci). Mae rhestr o ddiheintyddion ar gael yma – <a href="http://disinfectants.defra.gov.uk">http://disinfectants.defra.gov.uk</a></i>
<b>b)</b> Mae'n rhaid cael gwared ag unrhyw garthion neu ddeunyddiau a faeddwyd o bob ardal a ddefnyddir gan y cŵn yn dyddiol o leiaf ac yn amlach na hynny os bydd angen.	
<b>c)</b> Mae'n rhaid i gynhyrchion glanhau fod yn addas, diogel ac effeithiol yn erbyn pathogenau sydd yn achosi risg i'r anifeiliaid. Mae'n rhaid eu defnyddio, storio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiau'r gwneuthurwr, a'u defnyddio mewn ffordd sudd yn atal tralod neu ddiodefaint i'r anifeiliaid.	
<b>AMOD 8 RHEOLI PLÂU A GWAREDU GWASTRAFF</b>	
<b>a)</b> Mae'n rhaid cymryd camau i gadw'r fangre yn rhydd o gnofilod, pryfed a phlâu eraill. Mae'n rhaid gwaredu unrhyw blâu heb oedi.	<i>Gall hynny gynnwys cael contract rheoli plâu, osgoi cronni gwastraff, glendid (gwaredu carthion etc.) a storio bwyd yn briodol. Dylid dilyn canllawiau'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio cynhyrchion rheoli (e.e. Gwenwyn/trapiau) er mwyn lleihau'r risg i gŵn a phobl.</i>
<b>b)</b> Mae'n rhaid cymryd rhagofalon a chamau i gadw cŵn yn rhydd o baraseitiau allanol mewn cŵn preswyl a chŵn sydd yn lletya. Mae'n rhaid delio â pharaseitiau o'r fath gan ddefnyddio cynnyrch milfeddygol addas heb oedi er mwy gwaredu'r pla. Rhaid trin y llety yn rheolaidd, ac mae'n rhaid cadw tystiolaeth o'r holl driniaeth arferol a brys mewn perthynas â pharaseitiau.	<i>Rhaid codi carthion er mwyn atal paraseitiau rhag ymsefydlu. Os oes yna dystiolaeth o baraseitiau allanol (chwain, ticiau, llau) rhaid trin y cŵn gyda chynnyrch priodol wedi ei awdurdodi gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddyg (VMD) ac a drwyddedwyd i'w defnyddio yn y DU. Dylid trafod triniaeth gyda milfeddyg cyn ei rhoi a chael caniatâd gan y perchennog. Rhaid darparu tystiolaeth o drin chwain/llyngyr gan y perchnogion cyn lletya.</i>
<b>c)</b> Mae'n rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a gwaredu pob gwastraff. Dylid cymryd gofal arbennig o ran gwahanu gwastraff clinigol sydd yn deillio o drin a delio â chŵn sydd â chlefydau heintus. Rhaid i'r cyfleusterau gwaredu ar gyfer gwastraff anifeiliaid gydymffurfio â'r rheoliadau gwastraff presennol.	<i>Fel rhan o'ch busnes mae'n ddyletswydd arnoch i waredu eich gwastraff yn gyfrifol, drwy gariwr gwastraff masnachol trwyddedig. Ni ddylid defnyddio biniau gwastraff domestig ar gyfer gwastraff cysylltiedig â gwastraff. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru neu Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Cyfleusterau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gael y canllawiau cyfredol ar y dull priodol o waredu ar gyfer eich busnes.</i>
<b>AMOD 9 DEIET A MAETH</b>	
<b>a)</b> Rhaid darparu deiet digonol ac addas i'r holl gŵn o ran ansawdd, swm ac amledd yn unol â chyfarwyddyd y perchennog.	<i>Dylai bwyd gael ei ddarparu gan berchnogion y cŵn er mwyn osgoi unrhyw newid sydyn yn niet y cŵn, allai achosi problemau treulio. Rhaid cyflwyno bwyd newydd yn raddol er mwyn caniatáu amser i'r cŵn addasu. Dylai'r holl gŵn dderbyn deiet sydd yn bodloni eu gofynion maethynnol ac sydd yn addas ar gyfer eu hoed, brid, statws atgenhedlu, sgôr cyflwr corff (swm y braster) a lefel gweithgaredd.</i>
<b>b)</b> Rhaid i ddŵr yfed glân fod ar gael bob amser a'i ddarparu mewn cynhwysydd addas i'r brid sydd ei	<i>Rhaid darparu dŵr ffres yn ddyddiol mewn cynhwysydd glân a'i newid neu ei lenwi mor aml ag sydd angen.</i>

	angen. Raid glanhau'r llestr yfed yn ddyddiol a newid y dŵr o leiaf unwaith y dydd.	<i>Rhaid darparu nifer o bowlenni dŵr er mwyn sicrhau bod gan yr holl gŵn fynediad hawdd i'r dŵr. Dylid gwirio cymeriant dŵr a dylid hysbysu'r perchennog os nad yw eu cŵn yn yfed neu'n yfed yn ormodol.</i>
c)	Rhaid darparu powlen fwyta unigol i bob ci.	<i>Dylai cŵn gael mynediad at eu powlenni bwydo eu hunain er mwyn osgoi cystadleuaeth a ffyrnigrwydd, a dylid monitro bwytwr swil.</i>
d)	Rhaid i lestri bwyta ac yfed fod yn rhai y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd (neu yn rhai untro) er mwyn atal trawsheintio. Rhaid glanhau powlenni bwydo ar ôl pob pryd.	<i>Ni ddylai'r llestri fod yn fân-dyllog, dylid eu glanhau yn ddyddiol a'u diheintio'n aml. Os cânt eu difrodi, rhaid eu gwaredu neu eu hatgyweirio.</i>
e)	Dylai gwaredu bwyd dros ben mor aml ag sydd angen.	<i>Ni ddylid gadael bwyd sych yn y powlenni bwydo am fwy na 24 awr. Pan roddir bwyd gwlyb, rhaid gwaredu unrhyw fwyd dros ben cyn yr amser bwydo nesaf.</i>
f)	Rhaid darparu cynwysyddion aerdyn ar gyfer storio bwydydd sych.	<i>Mae hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r risg o blâu ac mae'n sicrhau y cedwir y bwyd yn sych am mewn cyflwr da.</i>
g)	Rhaid darparu oergelloedd addas ar gyfer storio bwyd ci oni ddefnyddir bwyd silff-sefydlog (e.e. Tuniau) yn unig, neu bod unrhyw fwyd dros ben yn cael ei waredu.	<i>Rhaid storio bwyd heb ei goginio (amrwd) a gweddillion tuniau wedi eu hagog yn yr oergell. Os caiff bwyd ci ei storio yn oergell yr aelwyd, fe'ch cynghorir o storio hwnnw ar wahân i fwydydd eraill am resymau hylendid.</i>
h)	Rhaid storio bwyd heb ei goginio (amrwd) a gweddillion tuniau heb eu hagog mewn cynwysyddion anfetelig nad ydynt yn gollwng â gorchudd yn yr oergell.	<i>Mae hynny er mwyn sicrhau bid y gwyd yn cael ei ddiogelu rhag halogiad wrth ei storio, ac er mwyn diogelu bwydydd eraill rhag cael eu halogi. Ni ddylid storio bwyd mewn tuniau wedi eu hagog yn yr oergell, oherwydd ar ôl eu hagog i'r aer, gall y tin yn y can gael ei drosglwyddo i'r cynnwys/bwyd.</i>
i)	Rhaid storio bwyd ar wahân er mwyn osgoi y risg o blâu a'i storio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.	<i>Gallai hynny fod mewn cynwysyddion wedi'u selio neu gypyrddau. Os oes yna dystiolaeth o ddfrod plâu mewn bwyd, rhai ei waredu a rhaid glanhau a diheintio yn ddigonol.</i>
j)	Rhaid i sinc gyda dŵr oer a phoeth fod ar gael yn y fangre ar gyfer golchi dwylo a glanhau.	<i>Cynghorir y dylai paratoi bwyd fod yn gwbl ar wahân i'r ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer paratoi bwyd pobl am resymau hylendid. Rhaid darparu sinc gyda dŵr oer a phoeth ar gyfer golchi offer bwyd a llestri bwyta ac yfed. Rhaid i'r sinc hwnnw fod wedi ei gysylltu i system ddraenio addas. Hefyd rhaid i sebon a chyfleusterau sychu dwylo glanwaith fod ar gael.</i>
<b>AMOD 10 CYFLEUSTERAU YMARFER CORFF</b>		
a)	Rhaid rhoi ymarfer corff i'r cŵn o leiaf unwaith y dydd neu yn unol â dymuniadau eu perchnogion.	<i>Dylid ystyried oed, ffitrwydd, tymer a diogelwch y cŵn a mathau addas o ymarfer corff, er enghraifft gallai amgylchiadau olygu nad yw ci a ganiateir iddo gael ymarfer corff oddi ar ei dennyn fod yn amhriodol.</i>
b)	Os bydd y cŵn yn cael mynd oddi ar y fangre ar gyfer ymarfer corff, rhaid eu cadw ar dennyn oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y perchennog yn caniatáu ymarfer corff oddi ar dennyn.	<i>Hefyd rhaid i unrhyw gerdded oddi ar dennyn yn gyhoeddus gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol arall (e.e. Gorchmynion rheoli cŵn a Deddf Traffig Ffyrdd 1988). Hefyd argymhellir cael caniatâd ysgrifenedig y perchennog ar gyfer ymarfer ar dennyn y tu allan i'r fangre.</i>
<b>AMOD 11 GORUCHWYLIAETH</b>		
a)	Rhaid i berson addas a phriodol gyda phrofiad perthnasol fod ar gael bob amser i oruchwyllo a delio ag achosion brys pryd bynnag fo cŵn yn lletya yn y fangre.	<i>Mae angen i unrhyw un sydd yn goruchwyllo cŵn gael digon o wybodaeth am ymddygiad cŵn, yn cynnwys iaith corff, dulliau chwarae a rheoli ymddygiad, yn ogystal ag iechyd cŵn, iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf i gŵn.</i>

<p><b>b)</b> Ni ddylai'r staff gael unrhyw euogfarnau troseddol neu fod wedi derbyn unrhyw rybuddion am unrhyw droseddau sydd yn ymwneud â lles anifeiliaid.</p>	<p>Mae hynny yn cynnwys euogfarnau o dan y canlynol: Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963, Deddf Bridio Cŵn 1973, Deddf Anifeiliaid Anwes 1951, Gorchymyn Cŵn (Gogledd Iwerddon) 1963, Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964, Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976, Deddf Lles Anifeiliaid 2006, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006 a Deddf Gwarchod Anifeiliaid (Diwygiad) 1954.</p>
<p><b>c)</b> Rhaid ymweld â chŵn yn rheolaidd, yn ôl y gofyn am resymau iechyd, diogelwch a lles ac ni ddylid eu gadael heb oruchwyliaeth yn rheolaidd.</p>	<p>Ni ddylid gadael cŵn heb oruchwyliaeth am fwy na 3 awr ar y tro. Ar unrhyw adeg, os gadewir cŵn o wahanol aelwydydd gyda'i gilydd heb eu goruchwyllo, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i hynny a dylid gwneud asesiad er mwyn penderfynu ar ddiogelwch y penderfyniad hwnnw. Ar ôl ystyried ac asesu, efallai y byddwch yn penderfynu ar yr angen i wahanu (mewn gwahanol ystafelloedd) cŵn o wahanol aelwydydd pan nad ydynt yn cael eu goruchwyllo.</p>
<p><b>d)</b> Dim ond pobl dros 16 oed gaiff fynd â chŵn lletya am dro mewn mannau cyhoeddus heb oruchwyliaeth.</p>	<p>Mae hynny er mwyn sicrhau bod unigolyn cyfrifol yn gallu rheoli'r cŵn mewn mannau cyhoeddus.</p>
<p><b>AMOD 12 IECHYD A LLES</b></p>	
<p><b>a)</b> Mae'n rhaid i bob sefydliad lletya cŵn fod yn gofrestredig gyda phractis milfeddygol a sicrhau bod manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu.</p>	<p>Dylai hynny gael ei gynnwys yn eich ffurflen gais. Gellir cael mynediad at gyfeiriadau milfeddygon gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon: <a href="http://www.rcvs.org.uk/find-a-vet-search/">http://www.rcvs.org.uk/find-a-vet-search/</a>. Fe'ch cynghorir hefyd i enwi milfeddygfa sydd yn cynnig gwasanaeth tu allan i oriau, rhag ofn achosion brys yn ystod oriau cau eic milfeddygfa arferol.</p>
<p><b>b)</b> Mae'n rhaid i filfeddygfa'r cleient ei hun fod yn hysbys, a dylid ymgynghori â'r filfeddygfa honno os bydd angen.</p>	<p>Os yn bosibl ac ymarferol (pellter etc.) dylid defnyddio milfeddyg y perchennog os bydd angen. Dylid cofnodi manylion milfeddyg y perchnogion.</p>
<p><b>c)</b> Rhaid cael cyngor gan filfeddyg pan fo arwyddion o glefyd, anaf neu salwch. Pan fo unrhyw gi yn sâl neu wedi ei anafu, rhaid dilyn unrhyw gyfarwyddiadau ar yfer triniaeth, a roddwyd gan filfeddyg, yn gaeth.</p>	
<p><b>AMOD 13 RHEOLI CLEFYDAU, BRECHIADAU AC YNYSU</b></p>	
<p><b>a)</b> Rhaid cymryd rhagofalon digonol er mwyn atal a rheoli lledaeniad clefydau heintus ymysg y cŵn, staff ac ymwelwyr.</p>	<p>Mae hynny yn cynnwys sicrhau bod cŵn yn cael eu brechu yn erbyn clefydau ac yn cael eu trin am barasitau cyn lletya. Mae rhagofalon digonol eraill yn cynnwys glanhau a diheintio rheolaidd, gwaredu carthion yn rheolaidd, golchi dwylo yn rheolaidd etc. Mae hynny hefyd yn cynnwys atal gwasgaru clefydau heintus rhwng cŵn gaiff eu hynysu a chŵn eraill.</p>
<p><b>b)</b> Rhaid cael cofnod cyfredol o warchodaeth yn erbyn y canlynol ar gyfer cŵn sy'n lletya a chŵn preswyl, a hynny wedi ei gymeradwyo gan filfeddyg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canine Distemper</li> <li>• Infectious Canine Hepatitis (Canine adenovirus)</li> <li>• Leptospirosis (L.canicola and L.icterohaemorrhagicae)</li> <li>• Canine Parovirus</li> <li>• Unrhyw glefydau perthnasol eraill.</li> </ul>	<p>Dylech gadw copi o gofnodion brechu'r ci fel tystiolaeth bod yr holl gŵn letya wedi cael eu gwarchod rhag clefydau. Dylid cadw'r cerdyn brechiadau (neu gopiau) ar y safle drwy gydol y cyfnod y mae'r ci yn lletya. Gall unrhyw glefydau perthnasol eraill y gall y sefydliad eu gwneud yn ofynno gynnwys, bechu yn erbyn clefydau megis Kennel Cough (Bordetella Bronchiseptica / Canine Parainfluenza) neu unrhyw brechiadau a gynghorir gan bractis milfeddyg/milfeddyg.</p>



	Rhaid cadw cofnod ar y safle bod y prawf yma wedi cael ei ddangos.	
c)	Mae'n rhaid i'r trwyddedai hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ar y diwrnod gwaith canlynol os bydd unrhyw gi yn datblygu clefyd heintus. Yn dilyn achos o glefyd heintus yn ystod unrhyw arhosiad, mae'n rhaid i'r fangre dreulio cyfnod cwarantin rhesymol cyn derbyn mwy o gŵn newydd i letya. Byd y cyfnod hwnnw yn cael ei nodi gan yr Awdurdod Trwyddedu fel y cytunwyd ar hynny gyda'r milfeddyg awdurdodedig.	<i>I adrodd am ac i drafod mwy am y cyfod cwarantin, gallwch e-bostio <a href="mailto:foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk">foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk</a> neu ffonio 01492 575283</i>
d)	Rhaid i gyfleusterau ynysu fod ar gael, rhaid iddynt gydymffurfio â'r amodau trwyddedu eraill a rhaid iddynt hefyd gael eu hynysu'n gorfforol oddi wrth lety cŵn eraill.	<i>Gellir cyflawni hynny drwy ddynodi ystafell ar gyfer dibenion ynysu, ellir ei defnyddio ar gyfer cartrefu ci heintus os bydd angen.  Dylid cofnodi cyngor milfeddygol a'i ddilyn yn syth ar gyfer unrhyw gi heintus. Mae angen ynysu cŵn yn effeithiol a disgwylir tystiolaeth o gyfranogiad milfeddyg.</i>
e)	Rhaid sefydlu mesurau bioddiogelwch digonol er mwyn atal lledaeniad clefyd heintus rhwng cŵn gaiff eu hynysu a chŵn eraill.	<i>Mae hynny yn cynnwys golchi dwylo, glanhau a diheintio rheolaidd, PPE (os bydd angen), dillad untro etc. Dylid bob amser gofyn am cyngor milfeddygol.</i>
f)	Rhaid darparu dulliau amgen o ysgogiad meddyliol i gŵn y mae angen eu hynysu oddi wrth gŵn eraill.	<i>Rhaid hysbysu perchnogion os bydd angen ynysu eu cŵn oddi wrth gŵn eraill, gan ddangos sut y bydd hynny yn cael ei gyflawni. Rhaid darparu amrywiaeth penodol o deganau ac offer i gŵn gaiff eu hynysu er mwyn annog ymddygiad sydd n nodweddiadol o'r rhywogaeth.</i>
<b>AMOD 14 GOFYNION AMRYWIOL</b>		
a)	Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw farwolaeth anifail ar y safle. Rhaid i'r trwyddedai wneud trefniadau ar gyfer storio'r corff ar safle milfeddyg nes bod y perchnogion yn dychwelyd.	<i>Gellir gwneud hynny drwy e-bostio <a href="mailto:foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk">foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk</a> neu ffonio 01492 575283</i>
b)	Rhaid i becyn cymorth cyntaf cynhwysfawr addas i gŵn fod ar gael ac yn hygyrch ar y safle.	<i>Dylai'r pecyn cymorth cyntaf gynnwys yr eitemau canlynol: detholiad o ddresin, gorchudd archoll and yw'n glynu, rhwymynnau cadw, rhwymynnau gorchuddio, gwllân cotwm, siswrn, gefel, tortsh a phenffwynau o feintiau addas.</i>
c)	Pe digwydd i gi ddianc neu fo ar goll o lety cŵn yn y cartref, rhaid i'r trwyddedai hysbysu'r awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y mae'n ymarferol a heb oedi diangen. Rhaid rhoi manylion llawn am ddyddiad, amser, lleoliad ac amgylchiadau'r digwyddiad, disgrifiad o'r ci, manylion llawn y perchennog, ac unrhyw gamau adfer a gymerwyd gan y trwyddedai.	<i>Gellir gwneud hynny drwy e-bostio <a href="mailto:foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk">foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk</a> neu ffonio 01492 575283  I riportio ci sydd wedi dianc neu ar goll i warden cŵn yr awdurdod, ffoniwch 01492 575222 yn ystod oriau swyddfa a 0300 123 3079 y tu allan i oriau swyddfa.</i>
d)	Rhaid i berson dynodedig o fewn amser teithio rhesymol gael set sbâr o allwedd i mynediad i'r fangre mewn achos brys. Rhaid rhoi'r manylion yma i'r Awdurdod Trwyddedu.	<i>Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn eich ffurflen gais. Byddai pellter rhesymol, dan amodau arferol, yn cael ei ddechongli fel dim mwy na 30 munud o amser teithio.</i>
<b>AMOD 15 CLUDO CŴN</b>		
a)	Rhaid i drwyddedai sydd yn cynnig gwasanaeth casglu a danfon sicrhau bod y cerbydau a ddefnyddir yn cydymffurfio â rheoliadau Lles Anifeiliaid a Gludir cyfredol.	<i>Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r gofynion er mwyn sicrhau 'Lles Anifeiliaid a Gludir'. Gallwch ofyn i'ch archwilydd trwyddedu am fanylion y rheoliadau cyfredol. Mae enghreifftiau yn cynnwys; cawell cŵn wedi ei osod</i>

	<i>yn ddiogel ac awyriad digonol, yn ogystal â'r gofyniad i ddal tystysgrif awdurdodi Cludwyr ar gyfer unrhyw daith dros 65km/40 milltir.</i>
<b>b)</b> Rhaid i ddeiliaid y drwydded ddangos bod cerbyd addas ar gael i gludo cŵn, neu pan na ddarperir cerbyd, bod cynllun wrth gefn wedi ei sefydlu ar gyfer cludo mewn achos brys (e.e. milfeddyg).	<i>Mae hynny yn bwysig petai ci angen triniaeth filfeddygol frys, pan fyddai angen cludiant i'r sefydliad. Os na fydd cerbyd ar gael, mae'n rhaid i chi gael cynllun ar gyfer delio â sefyllfaedd cludo brys.</i>
<b>c)</b> Rhaid ffrwyno'r cŵn yn briodol gan ddefnyddio crat cŵn, gwarchodwr cŵn neu harnais gludo. Rhaid i gratiau cŵn fod o faint digonol, ac wedi eu dylunio i ddarparu awyriad da ac wedi eu gosod yn ddiogel.	<i>Mae'n bwysig bod cŵn yn cael eu ffrwyno wrth eu cludo, er mwyn diogelu'r cŵn a chi rhag anaf. Gallu ci heb ei ffrwyno ddwyn eich sylw wrth yrru a gallai hynny arwain at ddamwain. Hefyd gallai cludo cŵn yn amhriodol mewn cerbyd annilysu eich yswiriant cerbyd.</i>
<b>d)</b> Pan fo'r busnesau yn defnyddio cerbydau i gasglu a dychwelyd cŵn, rhaid casglu'r cŵn a'u dychwelyd i dai ar dennyn.	<i>Mae hynny er mwyn lleihau'r risg i'r cŵn ddianc.</i>
<b>f)</b> Ni ddylid gadael cŵn mewn cerbydau am gyfnodau afresymol ac ni ddylid fyth eu gadael ar eu pennau eu hunain mewn ceir neu gerbydau eraill pan allai'r tymheredd achosi risg i'r anifail.	<i>Gall gadael ci mewn cerbyd am gyfnodau estynedig, pan fo'r tymheredd y tu allan yn uchel, arwain at strôc gwres, a gall hynny fod yn farwol.</i>
<b>g)</b> Rhai glanhau a diheintio cerbydau yn rheolaidd.	<i>Dylid glanhau a diheintio cerbydau bob tro ar ôl eu defnyddio.</i>
<b>AMOD 16</b> <b>DIANC RHAG TÂN, TRYDANOL A DEILIAID ALLWEDDI</b>	
<b>a)</b> Rhaid i ragofalon achosion brys addas a gweithdrefnau dianc rhag tân fod wedi eu sefydlu a rhaid hysbysu'r holl staff amdanynt, yn cynnwys trefniadau ar gyfer gwacau anifeiliaid.	<i>Dylai staff fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau yma a dylid arddangos copi fel y gall staff gyfeirio ato pan fo'r angen. Dylid ymarfer gwacau yn rheolaidd a dylid cofnodi'r ymarferion. Dylai'r holl staff gael hyfforddiant rheolaidd a dylid cadw cofnodion o hyfforddiant o'r fath. Ni ddylai'r weithdrefn yma achosi risg diangen i neb.</i>
<b>b)</b> Rhaid i fynedfeydd ac allfeydd fod yn glir o unrhyw rwystrau bob amser.	<i>Er mwyn hwyluso gwacau heb risg pan fo angen, wth ddylunio llety dylid ystyried defnyddio systemau fyddai'n caniatáu gwacau'r anifeiliaid yn brydlon mewn achos brys.</i>
<b>c)</b> Rhaid darparu a chynnal a chadw (gan berson cymwys) offer ymladd, atal a chanfod tân yn rheolaidd, a'u gwasanaethu a'u lleoli yn unol â chyngor y swyddog diogelu/atal tân lleol a derbyn cymeradwyaeth yr awdurdod lleol.	<i>Bydd hynny yn sicrhau y bydd yr offer yn gweithio'n iawn pan fydd eu hangen. Dylai staff gael eu hyfforddi'n briodol ynghylch defnyddio'r offer a ddarparwyd.</i>
<b>d)</b> Rhaid cymryd rhagofalon er mwyn atal risg tân.	<i>Mae hynny yn cynnwys ystyried lleoli offer cynhesu er mwyn sicrhau nad ydynt mewn lleoliadau neu sefyllfa ble gallent achosi risg tân, neu risg i gŵn ac atal unrhyw grynodi deunyddiau allai achosi risg tân. Bydd y rhagofalon yma ac eraill yn cyfyngu ar y risg tân.</i>
<b>e)</b> Rhaid i feddiannwr yr eiddo fod yn ymwybodol o leoliad y cŵn yn yr eiddo bob amser.	<i>Mewn achos o wacau, bydd gwybod ble mae'r holl gŵn yn yr eiddo yn golygu bydd y broses gwacau yn haws a mwy diogel.</i>
<b>f)</b> Rhaid cynnal a chadw yr holl osodiadau ac offer trydanol mewn cyflwr da ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Rhaid i systemau trydanol gael eu hadeiladu a'u cynnal yn ddigonol er mwyn atal perygl, cyn belled â bo hynny yn ymarferol, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989.	<i>Er mwyn helpu i gydymffurfio â'r rheoliadau yma gweler y manylion yn yr atodiad. Mae'n rhaid i bob gosodiad trydanol gael ei osod gan berson priodol gymwys a dylid eu cynnal mewn cyflwr diogel; a dylid eu lleoli fel nad ydynt yn achosi risg. Rhaid i'r holl offer gael ei gynnal mewn cyflwr da a'u gwasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.</i>

<p><b>g)</b> Rhaid i'r Trwyddedai gael trefniadau addas ar gyfer lletya cŵn dros dro petai'r fangre drwyddedig yn cael ei adael yn anghyfannedd.</p>	<p><i>Gallai'r trefniant hwnnw fod yn ddefnyddio sefydliad lletya trwyddedig arall neu fangre addas arall (megis teulu neu ffrindiau).</i></p>
<p><b>AMOD 17</b> <b>CADW COFNODION A CHOFRESTR</b></p>	
<p><b>a)</b> Rhaid cadw cofrestr o'r holl gŵn sydd yn lletya yn y sefydliad, a dylai fod ar gael i'r holl aelodau staff allweddol bob amser. Rhaid i'r wybodaeth a gedwir gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyddiad ac amser cyrraedd a gadael</li> <li>• Enw'r ci yn ogystal â marciai adnabod eraill megis rhif sglodyn micro neu datŵ.</li> <li>• Disgrifiad, brid, oed a rhyw y ci</li> <li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu geidwad</li> <li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn person cyswllt mewn argyfwng tra'n lletya</li> <li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci</li> <li>• Dyddiau arferol lletya.</li> <li>• Faint a sut y rhoddir unrhyw feddyginiaeth ar bob achlysur.</li> <li>• Iechyd, meddyginiaeth, lles, maeth a gofynion ymarfer corff.</li> <li>• Cofnod o ddyddiadau brechiadau a thriniaethau am lyngyr a chwain diweddaraf pob ci.</li> <li>• Copi o ganiatâd ysgrifenedig y perchennog mewn perthynas â'u ci yn rhyngweithio â chŵn eraill yn y sefydliad a rhyngweithio â chŵn/cathod sydd yn anifeiliaid anwes (os yn gymwys).</li> </ul>	<p><i>Dylai'r gofrestr fod mewn fformat sydd yn glir a haws ei ddeall i unrhyw aelod staff a'r archwiliwr trwyddedu. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'r holl staff allweddol a dylai'r swyddog archwilio gael mynediad ato ar gais.</i></p>
<p><b>b)</b> Rhaid i gofnodion fod ar gael am o leiaf 24 mis a dylid eu cadw mewn ffordd sydd yn galluogi swyddog awdurdodedig i gael mynediad hawdd i wybodaeth o'r fath.</p>	<p><i>Rhaid i'r deiliad trwydded gadw'r holl gofnodion o'r fath am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad creu'r cofnod.</i></p>
<p><b>c)</b> Pan fo cofnodion ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi caled neu gopi wrth gefn.</p>	<p><i>Hefyd rhaid i unrhyw gofnodion ar gyfrifiadur fod yn hygyrch i staff a swyddogion awdurdodedig. Gallai copi wrth gefn fod yn gopi papur wedi ei argraffu neu gopi wedi ei gadw ar USB, disg neu yriant caled.</i></p>
<p><b>AMOD 18</b> <b>MEDDYGINIAETHAU ARFEROL, CYMDEITHASU AC ID CŴN</b></p>	
<p><b>a)</b> Rhaid i berson cymwys roi meddyginiaeth neu driniaethau rheolaidd/dyddiol i unrhyw gi sydd yn lletya.</p>	
<p><b>b)</b> Rhaid trafod yn llawn faint a pha mor aml y rhodir y feddyginiaeth a chofnodi hynny cyn i'r ci ddod i aros. Yn ystod y cyfnod lletya, rhaid cadw cofnod o'r holl feddyginiaeth a roddir.</p>	<p><i>Mae'n bwysig bod gan y trwyddedai dystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas â gofynion meddyginiaeth er mwyn diogelu iechyd a lles y ci a diogelu eu hunain rhag unrhyw broblemau yn y dyfodol. Bydd hynny yn sicrhau bod y swm a'r amledd yn hysbys cyn lletya. Yn ystod y cyfnod lletya dylid dyfeisio rhestr wirio ar gyfer dyddiau ac amser rhoi meddyginiaeth a hynny yn cael ei lofnodi bob tro. Bydd hynny yn sicrhau bid y symiau cywir wedi cael eu rhoi.</i></p>

<p>c) Rhaid storio meddyginiaethau a ragnodir yn ddiogel mewn cwpwrdd/oergell, ar y tymheredd cywir, a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r milfeddyg a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.</p>	<p><i>Rhaid cwblhau'r holl gyrsiau yn unol â'r manylebau a roddir gan y milfeddyg. Rhaid dychwelyd unrhyw feddyginiaethau na ddefnyddir i'r perchennog neu'r milfeddyg a ragnododd. Rhaid i oergell fod ar gael ar gyfer storio meddyginiaethau pan fo'r rhain angen eu storio ar dymheredd isel.</i></p>
<p>d) Rhaid rhoi cyfle i'r holl anifeiliaid ryngweithio a chael eu hysgogi bob dydd.</p>	<p><i>Dylid sicrhau bod ymarfer corff, chwarae a chyswllt fel arall â phobl yn digwydd er mwyn sicrhau bod cŵn yn cael cymaint ag y byddent yn arfer ei gael yn amgylchedd eu cartref. Mae'n rhaid i bob ci derbyn teganau priodol a/neu brofiadau bwydo oni bai bod cyngor gan y perchennog/milfeddyg yn awgrymu fel arall. Mae'n rhaid i'r fangre gael caniatâd ysgrifenedig os na argymhellir profiadau o'r fath. Rhaid gwirio eitemau yn ddyddiol er mwyn sicrhau eu bid yn dal yn ddiogel. Rhaid monitro'r cŵn yn barhaus pan fo teganau a/neu brofiadau yn bresennol. Ni ddylai unrhyw deganau ac offer a ddefnyddir achosi risg o boen, dioddef, clefyd a/neu drallod i'r cŵn a rhaid eu defnyddio yn briodol. Rhaid gwirio eitemau yn ddyddiol er mwyn sicrhau eu bid yn dal yn ddiogel a rhaid eu gwaredu os ydynt wedi eu difrodi.</i></p>
<p>e) Rhaid i gŵn wisgo coler a thag adnabod pan fyddant y tu allan i'r fangre letya (ardaloedd ymarfer corff cyhoeddus neu awyr agored yn y fangre). Rhaid i'r tag ddangos enw, cyfeiriad a rhif ffôn y fangre letya.</p>	<p><i>Enghraifft o dag adnabod ci fyddai: "Llety Cŵn ABC, rhif tŷ/enw tŷ, cod post a rhif ffon". Bydd hynny yn helpu i adnabod y cŵn a bydd hefyd yn helpu'r staff o ran rheoli cŵn, os bydd un yn ceisio dianc neu os bydd tân neu achos brys arall. Petai ci yn mynd ar goll, gall hynny hwyluso aduniad cyflym. Mae yna hefyd gyfrifoldeb gyfreithiol i gŵn wisgo coler a thag mewn man cyhoeddus o dan Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992.</i></p>

## **A. Gweithdrefn Apelio**

### **Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963 - Adran 1 (4)**

Gall unrhyw berson sydd wedi ei dramgwyddo gan wrthodiad awdurdod lleol i roi trwydded o'r fath, neu gan unrhyw amod rhoddi trwyddedu o'r fath, apelio i'r llys ynadon; a gall y llys mewn perthynas ag apêl o'r fath roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â rhoi trwydded neu, fel bo'r achos, mewn perthynas â'r amodau rhoi trwydded fel mae'n tybio sydd yn briodol.

## **B. CANLLAWIAU RHAGOFALON TÂN**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei rhoi i drwyddedai, er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â'r gofynion rhagofalon tân a nodir yn amodau trwyddedu'r Cyngor sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau priodol er mwyn gwarchod anifeiliaid mewn achos o dân neu unrhyw achos brys arall.

Mae'r canllawiau wedi eu hanelu at sicrhau bod y dulliau dianc a'r rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol ar gyfer y bobl sydd yn preswyllo. Dylid cofio y gallai'r gofynion diogelwch tân ar gyfer pobl fod yn destun deddfwriaeth arall.

Rhaid ystyried y materion canlynol:

1. Mynediad ar gyfer Ymladd Tân a Chyflenwadau Dŵr - Dylid cael mynediad da ar gyfer cyfarpar ymladd tân (isafswm led o 3.7m) i'r holl hydrantau a ffynonellau dŵr eraill a dylid darparu llawr caled. Dylid arddangos bwrdd enw'r fangre yn glir ger y fynedfa ffordd agosaf.
  2. Dulliau Dianc - Dylid dylunio llwybrau dianc ar gyfer anifeiliaid er mwyn darparu rhediad yn syth allan o adeiladau, fydd angen y cymorth lleiaf gan bobl. Dylid gosod drysau'r llociau fel y gellir gwacau anifeiliaid yn gyflym, a dylid osgoi troadau aciwt, rhwystrau neu rampiau ar y llwybrau dianc cymaint â phosibl.
    - a) Dylid darparu allanfeydd ym mhob mangre sydd â digon o led ac uchder sydd yn caniatáu mynediad rhwydd at yr anifeiliaid bob amser.
    - b) Dylai'r allanfeydd fod yn hawdd eu hagog o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.
    - c) Os bydd angen, dylid darparu ar gyfer galw ar ddeiliaid allwedd yn hwylus. Mewn adeiladau sydd yn fwy na 18 metr o hyd neu ble cartrefir nifer sylweddol o anifeiliaid, dylid darparu o leiaf ddwy allanfa a dylid eu lleoli mor bell â phosibl oddi wrth ei gilydd. Dylid cyfyngu'r pellter teithio i 45 metr.
  3. Arwyddion Dim Ysmygu - Dylid arddangos rhybuddion dim ysmygu, a phan fo'n ymarferol dylid cymryd rhagofalon ymarferol rhag mynediad anawdurdodedig, yn arbennig gan blant.
  4. Gosodiadau Trydanol - Dylai gosodiadau trydanol yn cynnwys lampau gael eu glanhau yn rheolaidd er mwyn osgoi llwch rhag cronni. Dylid lleoli offer trydanol, gwresogyddion etc. A'u diogelu fel eu bod bellter diogel oddi wrth unrhyw groniadau tebygol o ddeunyddiau gwely fflamadwy.
- 5. Offer diffodd tân**
- a. Diffoddwyr tân symudol - Argymhellir darparu o leiaf y canlynol:
    - Mae adeiladau sydd ddim yn fwy na 200sqm angen o leiaf 2 x diffoddwyr tân dŵr 9 litr, ac ar gyfer adeiladau sydd yn fwy na 200sqm, rhaid darparu diffoddwr tân ychwanegol ar gyfer pob 200sqm ychwanegol neu ran o hynny.
    - Rhaid i ddiffoddwyr tân symudol fodloni gofynion BS EN3 a chael eu gosod a'u cynnal yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
    - Yn ddibynnol ar ddeilliant eich asesiad risg tân, gal fod yn bosibl lleihau hynny i un diffoddwr ym mhob mangre bach sydd ag arwynebedd llawr sydd yn llai na 90m<sup>2</sup>.
    - Ni ddylid defnyddio diffoddwyr tân sydd yn gwneud sŵn uchel wrth eu defnyddio e.e. CO2 neu gymylau mawr o bowdr sych, yn agos i anifeiliaid.
  - b. Olwynion Piben - Gellir darparu olwynion piben yn hytrach na diffoddwyr tân. Dylid cael o leiaf un piben ar gyfer pob 800sqm neu ran o hynny. Dylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Efallai y byddai pibau golchi yn dderbyniol Cyn belled bod yna lif cyson o ddŵr sydd yn gallu cynhyrchu jet dŵr â lleiafswm tafliad o 5 metr. Ni ddylai olwynion piben fod yn fwy na 45m o hyd a dylid eu lleoli fel y gellir mynd â'r ffrwynell o fewn 6m i bob rhan o'r fangre a warchodir.

6. Rhybuddion tân - dylai'r holl staff yn y fangre fod yn gyfarwydd â pha gamau ddylid eu cymryd mewn achos o dân. Dylid darparu rhybudd amlwg wedi ei ysgrifennu yn glir sydd yn dangos y camau ddylid eu cymryd mewn achos o dân a lleoliad y ffôn agosaf.

Gall y rhybudd yma gynnwys y canlynol:

“Os gwelwch dân, sicrhewch bod yr adeilad hwnnw cael ei wacau.

Ffoniwch y Frigâd Dân [mae'r ffôn agosaf yn.....}

Ymosodwch ar y tân gan ddefnyddio'r offer ymladd tân a ddarperir, os yw'n ddiogel gwneud hynny etc.”

7. Cyfeirnod Map O/S - Dylai rhif cyfeirnod map Ordnance Survey fod ar gael i'r fangre a dylid ei ddangos gyda'r Rhybudd Tân a ddarparwyd.

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoliadau (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol i ragofalon tân gael eu sefydlu er mwyn amddiffyn pobl berthnasol mewn achos o dân, ac yng nghyffiniau pob mangre y mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys iddynt.

Y 'person cyfrifol' sydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r gorchymyn. Mewn gweithle, y cyflogwr fydd hwnnw ac unrhyw berson sydd â rheolaeth ar unrhyw ran o'r fangre e.e. Y meddiannwr neu'r perchennog. Ym mhob mangre arall y bobl sydd yn rheoli'r fangre fyd yn gyfrifol.

Rhaid i'r person cyfrifol:

Gynnal Asesiad Risg Tân, a rhaid cofnodi canfyddiadau arwyddocaol hwnnw os cyflogir pump neu ragor o bobl, os yw'r fangre wedi ei thrwyddedu neu os oes hysbysiad addasu mewn grym.

I roi mwy o gymorth i chi mae Canllawiau Diogelwch Tân mewn Mangreoedd Anifeiliaid a Stablau (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael o'r swyddfa sefydlog neu drwy wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ([www.communities.gov.uk](http://www.communities.gov.uk)).

### **C. Iechyd a Diogelwch**

Mae cyfraith Iechyd a Diogelwch yn gymwys i bob busnes, waeth bynnag pa mor fach yw'r busnes. Fel cyflogwr neu berson hunangyflogedig, chi sydd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch eich busnes. Mae angen i chi gymryd rhagofalon cywir er mwyn lleihau'r risgiau cysylltiedig â pheryglon gweithle a darparu amgylchedd gweithio diogel.

Mae yna ganllaw o'r enw "Health and Safety made simple". Mae'r canllawiau yma n gwneud bywyd yn haws i chi drwy ddarparu gwybodaeth elfennol ynghylch beth sydd

angen i chi ei wneud mewn un man. Bydd yn eich helpu i ddechrau rheoli iechyd a diogelwch eich busnes.

Ar gyfer rhai gweithgareddau gwaith efallai bod yna bethau ychwanegol yr ydych chi angen eu gwneud er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae mwy o ganllawiau ar destunau penodol, megis rheoli asbestos, atal afiechyd o gyswllt ag anifeiliaid etc. a modelau o asesiadau risg ar gael ar-lein yn [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk).

Gellir lawrlwytho'r daflen "Health and Safety made simple" drwy ddilyn y ddolen yma: <http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf>